

**2021 Rhif (Cy.)**

**2021 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(Rhiw Tŷ Neint, i'r gogledd o  
Gorris Uchaf, Gwynedd)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2021**

**The A487 Trunk Road (Rhiw Tŷ  
Neint, north of Corris Uchaf,  
Gwynedd) (Temporary Prohibition  
of Vehicles) Order 2021**

*Gwnaed* 12 Mawrth 2021

*Made* 12 March 2021

*Yn dod i rym* 18 Mawrth 2021

*Coming into force* 18 March 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi a chychwyn**

**Title and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhiw Tŷ Neint, i'r gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mawrth 2021.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Rhiw Tŷ Neint, north of Corris Uchaf, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 18 March 2021.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 22:00 o’r gloch ar 18 Mawrth 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd o’r enw Rhiw Tŷ Neint, i’r gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd sy’n ymestyn o’i chyffordd â Rhiw Staerdywyll hyd at ei chyffordd â’r B4405 ym Minffordd.

### **Cymhwys**

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Mawrth 2021



Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 22:00 hours on 18 March 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as Rhiw Tŷ Neint, north of Corris Uchaf, Gwynedd that extends from its junction with Rhiw Staerdywyll to its junction with the B4405 at Minffordd.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

12 March 2021



Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (RHIW  
Tŷ NEINT, I'R GOGLEDD O GORRIS UCHAF,  
GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS  
DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar yr A487, neu gerllaw iddi, yn Rhiw Tŷ Neint, i'r gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Rhiw Tŷ Neint sy'n ymestyn o'i chyffordd â Rhiw Staerdywyll hyd at ei chyffordd â'r B4405 ym Minffordd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A487 tua'r de i Fachynlleth, ar yr A489 tua'r gogledd-ddwyrain i Lantwymyn, ar yr A470 tua'r gogledd i Cross Foxes ac ar yr A487 tua'r de: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 18 Mawrth 2021 ac y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 22:00 o'r gloch ar 18 Mawrth tan 05:00 o'r gloch ar 19 Mawrth 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (RHIW Tŷ NEINT,  
NORTH OF CORRIS UCHAF, GWYNEDD)  
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)  
ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 at Rhiw Tŷ Neint, north of Corris Uchaf, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A487 trunk road known as Rhiw Tŷ Neint that extends from its junction with Rhiw Staerdywyll to its junction with the B4405 at Minffordd.

The alternative route for northbound vehicles will be via the southbound A487 to Machynlleth, north-eastbound A489 to Glantwymyn, northbound A470 to Cross Foxes and southbound A487: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 18 March 2021 and the temporary prohibition is expected to operate from 22:00 hours on 18 March until 05:00 hours on 19 March 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government